Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Body Basix, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 07 Mai 2024
Dyddiad cyhoeddi: 07 Awst 2024





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn:0300 062 8163
E-bost:agic@llyw.cymru
Gwefan:www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83625-503-1
© Hawlfraint y Goron 2024

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ............................................................ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........................................................ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........................................................ 8

   - Ansawdd Profiad y Claf ...................................................... 8
   - Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ......................................... 12
   - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........................................ 15

4. Y camau nesaf ................................................................ 16

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ............... 17

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ............................................ 18

Atodiad C – Cynllun gwella ....................................................... 19

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Body Basix, Caerdydd ar 07 Mai 2024.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 11 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Roedd Body Basix yn darparu gwasanaeth parchus ac ystyriol i bob un o'i gleifion drwy gydol eu taith fel claf. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn cael gwasanaeth 'da iawn' a bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom fod trefniadau cadarn ar waith i gefnogi urddas y cleifion yn llawn, gan roi sylw dyledus i'w cydraddoldeb a'u hawliau. Gwelsom hefyd fod y staff yn Body Basix yn rhoi gwybodaeth glir a chyson i'w cleifion cyn, yn ystod ac ar ôl triniaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel a'u bod yn cael gofal yn Body Basix.
- Trafodwyd newidiadau i hanes meddygol a chysylltiadau â golau â'r cleifion cyn pob triniaeth.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr ar waith yn Body Basix i reoli'r risg o niwed i'r cleifion a darparu gofal mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer atal a rheoli heintiau yn gynhwysfawr a dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y lleoliad yn 'lân iawn'. Cyn ein harolygiad, gwnaethom ganfod bod angen i ddyfais laser newydd yn y lleoliad hwn gael ei gofrestru gydag AGIC, a chafodd y mater hwn ei ddatrys cyn ac yn ystod yr arolygiad. Yn gyffredinol, roedd cydymffurfiaeth y gwasanaeth â gofynion rheoliadol yn addas. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu trin a'u diweddaru'n gywir a'u storio mewn modd diogel.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar laser
- Roedd y trefniadau glanhau yn gadarn ac yn fynych.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y trefniadau arwain a rheoli a oedd ar waith yn foddhaol. Roedd llinellau cyfrifoldeb clir yn helpu'r staff i ddeall eu rolau unigol a darparu gofal gwell i'r cleifion. Roedd polisïau clir a chynhwysfawr ar waith i roi canllawiau i'r staff, gan gynnwys polisi cwynion a pholisi hyfforddiant. Fodd bynnag, nid oedd dyddiadau

adolygu na rhifau fersiynau wedi'u cofnodi yn y polisïau, gan olygu na allem gadarnhau pryd y cafodd y polisïau eu drafftio na'u hadolygu. Roedd y prosesau ar gyfer recriwtio a hyfforddi staff yn briodol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnwys dyddiad a dull rheoli fersiynau yn ei bolisïau a gwneud trefniadau priodol ar gyfer cofnodi pan fydd y staff wedi darllen a chydnabod y polisïau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y trefniadau ar gyfer ymdrin ag adborth a chwynion gan gleifion yn briodol
- Roedd arferion cynllunio a recriwtio'r gweithlu yn addas.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

**Adborth gan gleifion**
Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn am y gofal a'r triniaethau a ddarperir. Derbyniwyd cyfanswm o 11 o holiaduron wedi'u cwblhau. Dywedodd pob ymatebydd ond dau eu bod wedi ymweld â'r gwasanaeth yn ystod y ddeufis diwethaf. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth a gawsant yn 'dda iawn'. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'r staff bob amser wedi bod yn broffesiynol, yn gwrtais ac yn gyfeillgar."*

*"Salon proffesiynol iawn gyda staff profiadol a gwybodus."*

*"Mae'r clinig yn amgylchedd diogel a thawel iawn."*

> *"Rwyf bob amser wedi cael fy mhlesio'n fawr gan lefel y gwasanaeth rwyf wedi ei gael yn Body Basix".*

**Diogelu a gwella iechyd**
Gwelsom dystiolaeth o gyfrif cynhwysfawr o hanes meddygol claf yn cael ei gofnodi yn ystod ei ymgynghoriad cychwynnol cyn cael prawf croen. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y cleifion yn diweddaru eu hanes meddygol yn ystod pob apwyntiad dilynol. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth a bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn unrhyw driniaeth. Cadarnhaodd y cleifion hefyd eu bod wedi cael prawf croen cyn cael triniaeth newydd.

**Urddas a pharch**
Roedd ystafell breifat â gwydr barugog yn cael ei defnyddio i gynnal pob ymgynghoriad a thriniaeth. Roedd drws yr ystafell hon yn cael ei gloi pan oedd cleifion yn bresennol, ac roedd cod mynediad i'w ddefnyddio i gael mynediad mewn argyfwng yn unig. Gadawyd i gleifion newid yn breifat ac roedd tywel urddas yn cael ei ddefnyddio yn ystod triniaethau. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod mesurau ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd.

Gallai hebryngwyr fod yn bresennol mewn ystafelloedd trin ar gais, ac roedd pâr ychwanegol o sbectol amddiffynnol ar gael er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod y staff wedi gwrando arnynt/ateb eu cwestiynau. Dywedodd y cleifion wrthym:

> *"[Mae gweithredwr y peiriant laser] bob amser yn parchu fy mhreifatrwydd ac yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus yn ystod fy nhriniaethau."*

> *"Roedden nhw wedi gwneud i mi deimlo'n gyfforddus iawn."*

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**
Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o bump claf yn ystod ein harolygiad. Roedd yr holl gofnodion yn cynnwys ffurflenni ymgynghori cynhwysfawr, yn ogystal â manylion y triniaethau a roddwyd. Gwelsom fod y cofnodion yn nodi'r ymgyngoriadau wyneb yn wyneb a gynhaliwyd yn ogystal â'r broses prawf croen cyn triniaeth. Gwelsom ffurflenni cydsynio wedi'u llofnodi ar gyfer pob triniaeth ochr yn ochr â threfniadau i gadarnhau bod y cleifion yn gallu rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth. Roedd canllawiau i gleifion ar driniaethau laser a chyngor ar ofal ar ôl triniaeth yn cael eu rhoi i bob claf a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y cofnodion a welsom.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr i'r holiadur wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt, gan gynnwys y gost a'r risgiau a'r manteision. Dywedodd y cleifion:

> *"Cefais gyngor clir iawn drwy gydol fy nhriniaeth."*

> *"[Mae gweithredwr y peiriant laser] bob amser yn gofyn i mi a wyf wedi dod i gysylltiad â goleuni uwchfioled/a oes unrhyw newidiadau i fy hanes meddygol."*

Dywedodd pob un o'r cleifion hefyd eu bod wedi cael cyngor ar ôl-ofal a chanllawiau clir ar beth i'w wneud mewn argyfwng neu pe baent yn datblygu haint. Dywedodd y cleifion:

> *"Rwyf bob amser yn cael cyngor gwych ar ôl-ofal."*

> *"Bob amser yn rhoi taflen ar ôl-ofal ac yn esbonio'r cyfan yn drylwyr."*

**Cyfathrebu'n effeithiol**
Gwelsom fod gwybodaeth addas yn cael ei rhoi i gleifion ar bob cam o'u triniaeth. Gallai cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn, ar-lein neu wyneb yn wyneb yn Body Basix. Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth am driniaethau ar gael i gleifion

ar-lein. Roedd y canllaw i gleifion yn nodi'r holl wybodaeth berthnasol mwn perthynas â'r opsiynau triniaeth, costau, dull o fynegi pryder a gofal brys. Roedd datganiad o ddiben Body Basix hefyd yn gyfredol ac yn gynhwysfawr.

Nododd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn ymwybodol o unrhyw siaradwyr Cymraeg yn eu carfan o gleifion ond gwnaethant gadarnhau y byddai dogfennau yr oedd eu hangen yn Gymraeg yn cael eu darparu ar gais. Gwelsom fod rhai posteri a dogfennau ar gael yn ddwyieithog yn y lleoliad.

**Cynllunio a darparu gofal**

Roedd yr holl gofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn ystod yr arolygiad yn gynhwysfawr ac yn hawdd eu deall. Roedd y cofnodion yn cynnwys manylion yr ymgynghoriad cychwynnol, profion croen, a chydsyniad i driniaethau ar bob achlysur. Nid oedd dau o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt, a gafodd eu llunio cyn i ddogfennaeth gael ei diweddaru, yn cynnwys manylion sgil-effeithiau mewn adran benodol o'r ffurflen triniaeth. Fodd bynnag, roedd pob un o'r cofnodion newydd yn cynnwys manylion cywir am sgil-effeithiau mewn ardal benodol o'r ffurflen triniaeth.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, rhoesant enghreifftiau addas i ni o'r ffordd roeddent wedi trin y cleifion yn gyfartal ac wedi cynnal eu hawliau. Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth boddhaol ar waith i ategu'r enghreifftiau hyn. Roedd poster dim goddefgarwch o ran gwahaniaethu ac aflonyddu hefyd yn cael ei arddangos yn y brif dderbynfa. Roedd hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy ganiatáu iddynt ddewis eu rhagenwau a'u henwau a ffefrir ar eu cofnodion.

Roedd Body Basix wedi'i leoli mewn adeilad rhestredig na ellid ei addasu, i fyny set o risiau o'r drws ffrynt. Felly, roedd mynediad yn gyfyngedig ac nid oedd yn addas i bobl â symudedd cyfyngedig. Roedd y wybodaeth hon wedi'i nodi'n glir ar y wefan ac yn y canllaw i gleifion.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC i gleifion nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Dywedodd y cleifion wrthym y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, gyda pharch dyledus at eu nodweddion gwarchodedig.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith i ofyn am adborth, ei gofnodi ac ymateb iddo. Roedd y gwasanaeth yn cysylltu'n awtomatig â chleifion ar ôl eu hapwyntiad i ofyn am adborth ysgrifenedig, ac roedd hefyd yn gofyn am adborth ar lafar, lle bo

angen. Roedd adborth gan gleifion yn cael ei bostio ar-lein er mwyn codi ymwybyddiaeth gyffredinol. Cadarnhaodd y staff y gallai cleifion ddewis rhoi adborth yn ddienw.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr ar waith i reoli a lleihau'r risgiau i'r cleifion a sicrhau eu bod yn ddiogel. Roedd tystysgrifau diogelwch ar gyfer nwy, gwifrau trydanol a phrofion offer cludadwy ar waith. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau, yr oedd pob un ohonynt yn addas, a gwelsom fod y rhain wedi cael eu hadolygu'n flynyddol. Roedd yr holl ragofalon diogelwch tân yn foddhaol a dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o'r hyn y dylid ei wneud mewn argyfwng.

Roedd y pecyn cymorth cyntaf yn gyflawn ac yn cynnwys y cyfarpar priodol, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf i'r lefel gywir.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Roedd prosesau priodol ar waith i lanhau a dihalogi'r ardaloedd trin a'r cyfarpar yn effeithiol.  Roedd y prosesau hyn wedi'u nodi ym mholisi rheoli heintiau'r lleoliad. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei drin yn gywir a'i waredu drwy gontract trin gwastraff.

Dywedodd pob un o'r cleifion fod y lleoliad yn ‘lân iawn’. Dywedodd pob un o'r cleifion ond un a ymatebodd i'r cwestiwn fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael dilyn, a dywedodd y claf arall nad oedd yn gwybod. Dywedodd y cleifion wrthym:

> *“Mae'r clinig bob amser yn lân ac yn daclus iawn.”*
>
> *“Mae'r ystafelloedd bob amser yn cael eu glanhau i safon uchel ac roeddwn bob amser yn teimlo'n ddiogel iawn yn dod yma pan fu modd i'r salon agor yn dilyn COVID-19.”*

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**
Roedd gan y lleoliad bolisi diogelu addas ar waith, a oedd yn gyfredol ac yn cynnwys manylion y tîm diogelu lleol. Roedd y polisi yn nodi'n glir y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai pryder am ddiogelu. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant lefel 3 ar ddiogelu oedolion. Nid oedd unrhyw driniaethau'n cael eu rhoi i unrhyw un dan 18 oed.

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**
Yn ystod ein gweithdrefnau cyn yr arolygiad, gwnaethom ganfod nad y peiriant laser a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y lleoliad oedd y peiriant a oedd wedi'i gofrestru ag AGIC. Roedd peiriant newydd wedi cael ei brynu a dim ond yn y lleoliad hwn roedd yn cael ei ddefnyddio. Cyn ein harolygiad, gwnaethom ofyn i'r

lleoliad roi'r gorau i ddefnyddio'r peiriant hwn ar unwaith nes iddo gael ei gofrestru ag AGIC. Cafodd y mater hwn ei ddatrys ar ddiwrnod yr arolygiad, gan fod y peiriant laser wedi'i gofrestru'n briodol ag AGIC. Mae manylion y camau a gymerwyd gan AGIC i'w gweld yn Atodiad A. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar y peiriant laser newydd yn y gwasanaeth a gwelsom fod yr holl drefniadau diogelwch priodol ar waith i ddiogelu'r cleifion a'r staff.

Roedd contract addas ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau ardystiedig. Gwelsom gofnodion o ymweliadau blynyddol y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau â'r lleoliad a bod adroddiad cynhwysfawr wedi cael ei lunio, a oedd yn cynnwys asesiad risg. Roedd protocolau triniaeth unigol ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu creu a'u cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol fel rhan o gontract y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau.

Roedd yr ystafell lle roedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio yn cael ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio, ac roedd yr allweddol yn cael ei storio'n ddiogel gan weithredwr y peiriant laser. Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar y peiriant laser, ynghyd â gwiriadau calibradu cyn pob triniaeth, ac roedd y cofnodion gwasanaethu yn dangos bod y peiriant wedi cael ei archwilio ddiwethaf ym mis Mawrth 2024. Roedd sbectol amddiffynnol hefyd ar gael yn hawdd, ac roedd pob pâr mewn cyflwr da ac yn gyson â'r rheolau lleol.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**
Gwelsom fod triniaethau'n cael eu rhoi yn ddiogel ac yn effeithiol yn Body Basix. Roedd unig weithredwr y peiriant laser wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf a gymeradwywyd gan y gwneuthurwr, yn ogystal â hyfforddiant Craidd Gwybodaeth.

Roedd un ystafell yn cael ei defnyddio ar gyfer triniaethau laser yn y lleoliad. Gellid cloi'r ystafell hon ac roedd arwyddion priodol ar y drws i ddangos bod triniaethau laser yn cael eu cynnal yn yr ystafell. Roedd yr arwyddion hefyd yn nodi na ddylid mynd i mewn i'r ystafell pan fyddai triniaethau'n cael eu rhoi, ac y dylid cnocio ar y drws ac aros cyn mynd i mewn.

Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion fod pob claf wedi cael prawf croen a bod cydnawsedd ei groen wedi cael ei brofi cyn iddo gael ei gwrs o driniaethau.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**
Roedd adborth gan gleifion yn cael ei adolygu a'i drafod yn rheolaidd yn y lleoliad er mwyn llywio gwelliant parhaus. Roedd archwiliadau hefyd yn cael eu cynnal o'r trefniadau glanhau a hylendid yn y lleoliad.

**Rheoli cofnodion**

Gwelsom dystiolaeth o brosesau cadw cofnodion da yn Body Basix. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar bapur a'u storio mewn cabinet diogel lle na allai'r cyhoedd gael gafael arnynt. Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am oruchwylio mynediad at y cofnodion. Gwelsom fod yr holl gofnodion yn cael eu gwaredu'n ddiogel drwy gontract gwaredu gwastraff addas.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Roedd llinellau cyfrifoldeb clir yn amlwg ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau. Roedd cyfarfodydd staff anffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac roedd cofnodion yn cael eu cymryd yn ystod cyfarfodydd misol mwy ffurfiol.

Gwelsom fod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn glir ac yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, nid oedd dyddiadau adolygu na rhifau fersiynau wedi'u cofnodi yn y polisïau, gan olygu na allem gadarnhau pryd y cafodd y polisïau eu drafftio na'u hadolygu. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom hefyd nad oedd unrhyw broses ar waith i gofnodi a oedd y staff wedi darllen a deall y polisïau.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnwys dyddiad a rhif y fersiwn yn y polisïau.**

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud trefniadau priodol i gofnodi a oedd y staff wedi darllen a chydnabod y polisïau.**

Roedd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a thystysgrifau cofrestru AGIC i'w gweld yn y dderbynfa.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Byddai'r rheolwr yn goruchwylio cwynion gan gleifion, ac yn ymchwilio iddynt ar y cyd â gweithredwr y peiriant laser. Roedd y weithdrefn gwyno yn cael ei harddangos yn briodol yn ardal derbynfa'r clinig. Roedd y weithdrefn gwyno yn gyfredol ac yn cyfeirio at AGIC fel ffordd o fynegi pryderon. Nid oedd unrhyw gwynion i ni eu hadolygu, ond cawsom sicrwydd drwy'r broses a oedd ar waith. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw gŵyn ar lafar yn cael ei nodi yn y llyfr cwynion.

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**
Gwelsom fod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer y ddau gyflogai, ynghyd â gweithdrefn foddhaol ar gyfer cynnal gwiriadau cyn cyflogi.

**Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**
Roedd Body Basix yn fusnes teuluol gyda dau aelod o staff. Gwelsom fod systemau priodol ar waith ar gyfer cynefino staff newydd, goruchwylio'r staff yn barhaus a monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Cyn yr arolygiad, gwnaethom ganfod fod y gwasanaeth yn defnyddio peiriant laser nad oedd wedi'i gofrestru gydag AGIC. | Gallai defnyddio peiriant nad oedd wedi'i gofrestru gydag AGIC fod wedi achosi niwed i gleifion. | Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r lleoliad roi'r gorau i ddefnyddio'r peiriant laser ar unwaith. | Cyflwynwyd y ddogfennaeth gywir i AGIC a chofrestrwyd y peiriant laser, a chafodd ei adolygu gan AGIC yn ystod yr arolygiad hwn. Ailddechreuwyd defnyddio'r peiriant ar ôl iddo gael ei gofrestru'n gywir. |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Body Basix, Caerdydd

## Dyddiad yr arolygiad: 7 Mai 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Body Basix, Caerdydd

## Dyddiad yr arolygiad: 7 Mai 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Nid oedd dyddiadau adolygu na rhifau fersiynau wedi'u cofnodi, gan olygu na allem gadarnhau pryd y cafodd y polisïau eu drafftio na'u hadolygu. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom hefyd nad oedd unrhyw broses ar waith i gofnodi a oedd y staff wedi darllen a deall y polisïau. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnwys dyddiad a rhif y fersiwn yn y polisïau.<br><br>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud trefniadau priodol i gofnodi a oedd y staff wedi darllen a chydnabod y polisïau. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br>, Adran 9 | Mae dyddiadau adolygu a rhifau fersiynau wedi'u hychwanegu at y polisïau. Mae cofnodlyfr wedi'i gyflwyno i gofnodi'r dyddiad y mae'r staff yn darllen ac yn deall y polisïau. | Denise Renton | Wedi'i gwblhau ar 10/07/2024. |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): DENISE RENTON**

**Teitl swydd: Ymarferydd laser a pherchennog y busnes**

**Dyddiad: 10/07/2024**